**Comisiwn y Cynulliad** **ATODIAD A**
**Adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad** **Diwygiwyd 7 Gorffennaf**

**Allwedd i'r colofnau**
**Barn y panel am weithredu:**
① - dylid ei weithredu cyn gyntad â phosibl ar ôl cyhoeddi'r adroddiad
② - dylid ei weithredu'n union ar ôl yr etholiad nesaf yn 2011
**Barn y Swyddog Cyfrifo:**
Hanfodol – diwygiadau/rheoliadau sy'n hanfodol er mwyn llywodraethu'r Cynulliad yn dda
Gellir ei gyflawni – nid oes dim rhwystrau ariannol, cyfreithiol na gweithredol nac o ran llywodraethu i atal gweithredu
Angen rhagor o waith – dim rhwystrau amlwg i atal gweithredu ond bydd angen rhagor o waith i sefydlu'r ffordd orau i weithredu'r argymhelliad

**Prif Argymhellion**

| **Argymhelliad** | | **Gweithredu** | **Barn gyfreithiol** | **Barn y Swyddog Cyfrifo** | **Gweithredu a Argymhellir** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pennod 3: Egwyddorion** | | | | | |
| 3 | Dylai fod yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad sy'n hawlio treuliau am weithgarwch yn gysylltiedig â'u dyletswyddau fel Aelodau Cynulliad ddarparu'r dystiolaeth ddogfennol briodol, ac esboniad i ddangos bod y gwariant wedi ei achosi a'r gweithgarwch wedi digwydd. | ① | Gellir delio â hyn drwy gyfrwng Penderfyniad | **Hanfodol a gellir ei gyflawni** | **Cyn gynted â phosibl, yn sicr erbyn diwedd toriad yr haf** Mae'r egwyddor hon eisoes yn bod i raddau helaeth, ond caiff ei hatgyfnerthu ar unwaith drwy newidiadau gweinyddol. |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pennod 4: Cyd-destun a Gallu** | | | | | |
| 7 | Dylai Comisiwn y Cynulliad roi sylw ar unwaith i’r ffordd orau i gynyddu gallu strategol y Cynulliad drwy dynnu i mewn arbenigedd ychwanegol o’r ddewislen o ddewisiadau sydd wedi eu gosod allan ym mharagraff 4.46. | ① | Gellir gwneud hyn drwy weithredu gweinyddol. Dylai nifer o randdeiliaid fod yn rhan o’r broses. | **Angen rhagor o waith** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010** |
| **Pennod 5: Cyflog, Pensiynau a Threfniadau wrth Adael y Swydd** | | | | | |
| 8 | NI ddylai cyflogau Aelodau Cynulliad mwyach fod yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflogau Aelodau Seneddol. | ① | Mae’r Penderfyniad yn cynnwys cysylltiad rhwng cyflogau ACau a rhai ASau y gellid ei ddileu. | **Gellir ei gyflawni** | **Cyn gynted â phosibl, ac yn sicr erbyn diwedd toriad yr haf** |
| 9 | Mae’r gyflog sylfaenol bresennol o £53,108 i Aelodau Cynulliad yn briodol, a dylid codi’r gyfradd ym mis Ebrill 2010, yn unol â chwyddiant. | ① | Bydd y codiad mewn cyfraddau yn gofyn am welliant yn y Penderfyniad. | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010** |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Dylai cyflogau Aelodau Cynulliad gael eu pennu am gyfnod y Cynulliad o 4 blynedd.<br>• Dylid gosod lefel sylfaen y gyflog hon drwy gyfeirio at ganran y newid yn y mynegai o enillion ar gyfartaledd i Gymru.<br>• Dylid cymryd i ystyriaeth chwyddiant a chynnydd tybiannol yn y gyflog lefel sylfaenol.<br>• Dylai'r gyflog hon barhau'n sefydlog drwy gydol cyfnod y Cynulliad oni fydd amgylchiadau eithriadol; er enghraifft, newid sylweddol ym mhwerau'r Cynulliad Cenedlaethol.<br>• Dylai Corff Adolygu Annibynnol gyfarfod o leiaf chwe mis cyn y Cynulliad nesaf i benderfynu'r materion hyn (gweler argymhelliad 12). | ② | Gellid gweithredu cynigion penodol drwy Benderfyniad, ond byddai angen Mesur ar gyfer ffurfio Corff Adolygu, a darperir y cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer hynny gan Fater 13.3. | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010** |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Byddai Comisiwn y Cynulliad yn paratoi Mesur Cynulliad ac yn ei ddatblygu cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosibl, i sefydlu Corff Adolygu Annibynnol statudol i wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â'r materion a restrir isod.<br>Swyddogaeth y corff hwn fydd:<br><br>i) gwneud penderfyniadau am bob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau Cynulliad<br>ii) cymryd i ystyriaeth y cyfrifoldebau sy'n newid yng ngwaith Aelodau Cynulliad<br>iii) adolygu effeithiolrwydd ac effaith y broses o godi cyfraddau<br>iv) delio ag unrhyw faterion 'ad hoc'<br><br>Dylid nodi y dylai aelodau'r Corff hwn fod yn annibynnol ar y Cynulliad a dylai fod ganddynt arbenigedd perthnasol. Byddai eu dewis gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (fel y Prif Swyddog Cyfrifo), yr | ① | Byddai angen Mesur, a darperir y cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer hynny gan Fater 13.3. | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010** |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| | Archwilydd Cyffredinol a Chynghorydd Annibynnol i'r Comisiwn yn ddull priodol. | | | | |
| 16 | Dylai Comisiwn y Cynulliad ac Ymddiriedolwyr y Gronfa gael cyngor gan gyfreithiwr a chan actiwari er mwyn cynnwys na fyddai cyfradd y cyfraniad safonol sy'n cael ei ariannu gan y Comisiwn yn uwch na'i lefel bresennol o 238 y cant, ac y dylai hyn gael ei adolygu nawr ac yn y man i gymryd i ystyriaeth yr hyn sy'n digwydd mewn cynlluniau pensiwn mewn mannau eraill. | ① | Gweithredu gweinyddol yn ofynnol dim ond i gael y cyngor a argymhellir ai gyfeirio'r mater at yr Ymddiriedolwyr. Yng ngoleuni unrhyw gyngor a geir mae'n bosibl y byddai angen gweithredu sy'n cynnwys Penderfyniad. | **Gwaith pellach yn ofynnol** | **Ar waith cyn y Nadolig2010** Mae hyn yn gofyn am gyngor ar bensiynau a chytundeb Ymddiriedolaeth y Gronfa Bensiwn. |
| 17 | Yn dilyn etholiad nesaf y Cynulliad, dylid gostwng y Lwfans Dirwyn i Ben i uchafswm o chwarter y Lwfans Costau Staff Eraill a'r Lwfans Costau Swyddfa, ac ni ddylai gynnwys | ② | Angen newid yn y Penderfyniad | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| | taliadau colli swydd i staff cymorth. Darperir ar gyfer hynny mewn cyllid ar wahân. | | | | |
| 18 | Dylai Aelodau Cynulliad presennol barhau, cyn belled ag y byddant yn dal i roi gwasanaeth parhaus, i gael yr hawl i Grant Ailsefydlu pan fyddant yn ymddiswyddo neu'n ymddeol.  Dylai unrhyw Aelodau Cynulliad a etholir yn 2011, neu wedyn, fod yn gymwys i gael Grant Ailsefydlu dim ond os methant gael eu hailethol mewn etholiad Cynulliad lle maent yn sefyll. | ② | Angen newid yn y Penderfyniad | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| **Pennod 6: Llety Preswyl** | | | | | |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| 20 | Dylai'r Lwfans Cost Ychwanegol presennol, ynghyd â bod yn gymwys i hawlio llog morgais ar ail gartrefi, gael ei ddileu o ddiwedd y Cynulliad hwn ym Mai 2011. Dylid darparu ar gyfer y costau o aros oddi cartref. Dylai hyn gynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer Aelodau Cynulliad sy'n byw yn yr ardaloedd mewnol ac allanol, fel y disgrifir ym mharagraffau 6.24 a 6.25 ac fel y dangosir yn Atodiad 11. | ② | Angen newid yn y Penderfyniad | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 21 | Dylai Aelodau Cynulliad sy'n byw o fewn yr ardal fewnol a ddiffinnir ym mharagraff 6.24 fod yn gymwys i hawlio am aros hyd at 20 noson y flwyddyn yng Nghaerdydd. Gallant hawlio hyd at £95.00 y noson am lety mewn gwesty, gan gynnwys parcio car, a hyd at £20.00 am bryd bwyd yn y nos. Dylid cyflwyno derbynebau priodol gyda hawliadau a nodyn esboniadol byr. Ar gyfer y gyfradd o £25 'ddim mewn gwesty' am aros gyda ffrind neu berthynas, nodyn | ② | Angen newid yn y Penderfyniad | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| | esboniad byr yn unig sy'n ofynnol. | | | | |
| 23 | Dylid dileu cyn gynted â phosibl y gyfradd wastad o £30.65 a hawlir gan Aelodau Cynulliad pan fyddant i ffwrdd o'u prif gartref. | ① | Angen newid yn y Penderfyniad | **Hanfodol a gellir ei gyflawni** | **Cyn gynted â phosibl, ac yn sicr erbyn diwedd toriad yr haf**<br>Bydd hyn yn gofyn am ddiwygio Penderfyniad 2009 drwy ddileu paragraff 3.3.6 (sy'n caniatáu'r hawliadau hyn).<br><br>**Argymhellir y dylid cytuno'r diwygiad hwn i ddod i rym ar 1 Awst 2009.** |
| 24 | Dylai Comisiwn y Cynulliad ddarparu llety addas ar gyfer Aelodau sy'n gymwys, wedi ei ddodrefnu yn ôl safonau modern ac o fewn pum milltir i'r Senedd. Dylai'r Comisiwn ystyried y ffordd fwyaf cost effeithiol i ddarparu'r llety hwn. | ② | Gweinyddol yn rhannol – eisoes o fewn pwerau'r Comisiwn. Byddai angen hefyd gael cefnogaeth newid yn y Penderfyniad. | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| 25 | Dylai Aelodau Cynulliad sy'n bartneriaid mewn perthynas gydag Aelod arall o'r Cynulliad, ac sy'n gymwys i gael ail gartref yng Nghaerdydd, gael eu hystyried fel un aelwyd at ddibenion darparu llety preswyl. | ② | Angen newid yn y Penderfyniad | **Hanfodol a gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 27 | Ni ddylai Aelodau Cynulliad mwyach hawlio am ddodrefn a ffitiadau ar gyfer eu hail gartref. | ① | Gellid ei weithredu'n rhannol drwy weithredu gweinyddol, er y byddai angen diwygiad yn y Penderfyniad hefyd. | **Hanfodol a gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| 9 | Dylai Aelodau Cynulliad, lle mae'n briodol, allu hawlio ad-daliad am filiau cyfleustodau, treth gyngor, band eang, yswiriant a thrwydded deledu ar gyfer yr ail gartref a ddarperir gan y Cynulliad. | ② | Gweinyddol | **Ar waith** | **Eisoes ar waith a bydd yn parhau** |
| **Pennod 7: Swyddfeydd** | | | | | |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| 32 | Dylai'r ddarpariaeth costau swyddfa leol alluogi Aelodau Cynulliad i gael ad-daliad am yr holl gostau rhesymol, yn amodol ar argymhelliad 31, sy'n ymwneud â rhedeg swyddfa leol ac ymwneud ag etholwyr. Dylai derbynebau neu dystiolaeth o'r gwariant gael eu cyflwyno gyda phob hawliad, a dylai'r trefniadau misol newydd ar gyfer cyhoeddi treuliau Aelodau barhau. | ① | Parhau'r drefn bresennol | **Ar waith** | **Eisoes ar waith a bydd yn parhau** |
| 36 | Dylai Aelod Cynulliad sy'n bwriadu prydlesu swyddfa oddi wrth sefydliad gwleidyddol neu undeb llafur, neu sy'n bwriadu isosod rhan o'i swyddfa i sefydliad plaid wleidyddol, undeb llafur neu unrhyw sefydliad neu fusnes arall, gael prisiad annibynnol gan aseswr wedi ei ddewis gan y Cynulliad. Dylid cyflwyno'r prisiad i Gomisiwn y Cynulliad cyn cwblhau unrhyw drefniadau contractiol. Dylid archwilio nawr ac yn y man i sicrhau bod rhenti'n parhau'n rhesymol. | ① | Gweinyddol ond gall fod angen newid yn y Penderfyniad er mwyn eglurder | **Hanfodol a gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** Bydd yn gymwys i unrhyw drefniadau yn y dyfodol o'r math hwn. Bydd archwiliadau o'r trefniadau presennol yn digwydd cyn etholiad 2011. |
| **Pennod 8: Pobl a Gyflogir gan Aelodau'r Cynulliad** | | | | | |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| 65 | Dylai Aelodau Cynulliad sy'n cyflogi aelodau o'u teulu, fel y diffinnir yn nrafft y gorchymyn sefydlog yn Atodiad 13, gael parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, credwn na ddylai Aelodau, o hyn ymlaen, benodi aelodau o'u teulu o'r newydd. | ① | Angen diwygiad yn y Penderfyniad. Rhaid i Benderfyniad a wneir gan y Comisiwn gydymffurfio ag amrywiol lefelau deddfwriaeth cydraddoldeb. Fodd bynnag, ni fyddai rheol, a gâi'r effaith o annog peidio â chyflogi *aelodau o'r teulu,* yn torri unrhyw rai o'r haenau cydraddoldeb (rhyw, ethnigrwydd, oed, tueddfryd rhywiol, anabledd, ac ati) sy'n cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009**<br>Bydd drafft y Gorchymyn Sefydlog ar gofrestru cyflogi aelodau o'r teulu yn mynd gerbron y Pwyllgor busnes cyn toriad yr haf.<br>**Gweithredu ar ôl yr Etholiad**<br>Bydd Penderfyniad 2009 yn ei gwneud yn ofynnol cael diwygiad i ddangos na fydd costau cyflog aelodau o'r teulu sy'n cael eu cyflogi, yn y dyfodol, yn cael eu talu o gronfeydd cyhoeddus. |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pennod 9: Hyfforddiant a Datblygiad** | | | | | |
| 75 | O fewn y mis cyntaf ar ôl eu hethol i'w swydd, dylai Aelodau newydd y Cynulliad fynd ar gwrs wythnos o hyfforddiant cyflwyno. | ② | Gellir ei wneud yn weinyddol | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 80 | Dylid cynyddu'n sylweddol y gyllideb hyfforddiant ar gyfer Aelodau Cynulliad a'r rheiny sy'n cael eu cyflogi ganddynt, a nodi hynny ar gyfer pob cyfnod o 4 blynedd.. | ② | Gellir ei wneud yn weinyddol | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| **Pennod 11: Teithio** | | | | | |
| 92 | Dylai defnyddio ceir wedi eu hurio gan Aelodau Cynulliad ddod i ben, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. | ① | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| **Pennod 12: Gweinyddu, Archwilio a Safonau** | | | | | |

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Gweithredu a Argymhellir |
|---|---|---|---|---|---|
| 101 | Dylai Comisiwn y Cynulliad ddefnyddio archwiliad allanol (yr Archwilydd Cyffredinol) i ddarparu sicrwydd annibynnol, i'r Comisiwn ac i bobl Cymru, fod gwariant ar hawliadau a lwfansau'n digwydd yn unol â gofynion y trefniadau newydd. | ① | Er bod y trefniadau hyn eisoes ar waith, byddai angen Mesur i sicrhau dyletswydd statudol, a darperir cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer hynny gan Fater 13.3 | **Hanfodol ac ar waith** | **Eisoes ar waith a bydd yn parhau** |

## Argymhellion Pellach

| Argymhelliad | | Gweithredu | Barn gyfreithiol | Barn y Swyddog Cyfrifo | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pennod 3: Egwyddorion** | | | | | |
| 1 | Dylai cymorth ariannol i Aelodau Cynulliad gael ei atgyfnerthu gan set o egwyddorion i'w llunio gan Gomisiwn y Cynulliad. Dylai''r egwyddorion hynny fod yn gyson â'r 'saith egwyddor mewn bywyd cyhoeddus': anhunanoldeb, dilysrwydd, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Dylai Aelodau Cynulliad lofnodi'r Cod Ymddygiad wrth gymryd y Llw. | ② | Nid oes materion gweithredu ar wahân yn codi. Byddai angen ymgorffori'r egwyddorion ym mhob un o'r offerynnau ar gyfer gweithredu'r cynllun. | **Hanfodol a gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 2 | Dylai Aelodau Cynulliad gael yr hawl i hawlio ad-daliad am dreuliau rhesymol, wedi eu tynnu o reidrwydd, wrth ymgymryd â busnes y Cynulliad. | ① | Mae hyn eisoes ar waith | **Hanfodol ac ar waith** | **Eisoes ar waith** |
| **Pennod 4: Cyd-destun a Gallu** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Dylai'r Comisiwn, drwy drafodaethau gyda Gweinidogion Cymru, geisio'i gwneud yn haws i wybodaeth a briffio lifo'n mwyn esmwyth, yn enwedig wrth gynorthwyo gwaith pwyllgorau. | ① | Gellir cyflawni hyn drwy weithredu gweinyddol | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| 5 | Dylai'r Pwyllgor Busnes gynyddu amser eisteddiadau hyd at uchafswm o 36 wythnos y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod digon o amser i graffu ar y rhaglen ddeddfwriaethol. | ① | Gellir gwneud hyn drwy benderfyniadau gan y Pwyllgor Busnes | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu gan y Pwyllgor Busnes** |
| 6 | Dylai'r grwpiau plaid gofnodi gwyliau Aelodau Cynulliad. | ① | Cyn belled na fwriedir dim cosb am fethu â chydymffurfio, gellid gweithredu hyn drwy roi cyngor i grwpiau, efallai ar y cyd â chyhoeddi'r wybodaeth ar wefan y Cynulliad. | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu gan grwpiau'r pleidiau** |
| **Pennod 5: Cyflog, Pensiynau a Threfniadau wrth Adael y Swydd** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Dylai'r gyflog lefel sylfaen a ddefnyddir ar gyfer codi cyfraddau ar ôl hyn fod yr un fath â'r gyflog ar 1 Mehefin 2009. | ① | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010 (i'w ddefnyddio gan hy Corff Adolygu Annibynnol)** |
| 13 | Dylai cadeiryddion pwyllgorau gael atodiad dal swydd o naill ai £12,000 y flwyddyn neu £8,000 y flwyddyn. Dylai Comisiwn y Cynulliad benderfynu pa atodiad sy'n gymwys i bob cadeirydd pwyllgor, i fod mewn grym am weddill tymor y Cynulliad. Dylai Aelodau sydd â swydd ychwanegol, ac sydd â hawl ar hyn o bryd i'r un atodiad, barhau'n gyfartal. | ① | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** Bydd y Comisiwn yn cael papur ar y mater hwn ym mis Medi, a gall ôl-ddyddio effaith unrhyw benderfyniadau a wneir yn ystod y flwyddyn ariannol. |
| 14 | Ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad, dylai Aelodau sydd â swydd ychwanegol gael atodiadau yn ôl yr un gyfran o'r gyflog sylfaenol ag a fydd yn gymwys ar ôl yr addasiadau a ddisgrifir yn argymhelliad 13. Bydd y cyfrannau hyn yn agored i'w hadolygu gan y Corff Adolygu Annibynnol a bryd i'w gilydd. | ② | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 15 | Yn ogystal â chofnodi gwybodaeth am gyflogaeth arall ar y Gofrestr o Fuddiannau, dylai fod yn ofynnol i Aelodau Cynulliad hefyd roi manylion am yr amser a dreuliant yn y gyflogaeth ychwanegol hon. | ① | Angen newid Gorchmynion Sefydlog, i'w gwneud yn ofynnol cofrestru gwybodaeth ychwanegol | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| 19 | Dylai'r Grant Adsefydlu i Aelodau Cynulliad newydd fod yn seiliedig yn unig ar hyd gwasanaeth yr Aelod Cynulliad.  Dylid cyfrif y grant ar sail un mis am bob blwyddyn gyflawn o wasanaeth hyd at gyflog o chwe mis. Os dymunant, gall Aelodau Cynulliad presennol barhau i ddod dan y rheolau sydd â manylion amdanynt yn y Penderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009, cyhyd ag y byddant yn parhau mewn gwasanaeth parhaus.  Fodd bynnag,  gall unrhyw Aelod Cynulliad presennol ddewis dod dan y rheolau newydd. | ② | Bydd hyn yn gofyn am newid ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| **Pennod 6: Llety Preswyl** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 22 | Dylai Comisiwn y Cynulliad fargeinio am gyfraddau is mewn gwestai ar gyfer Aelodau Cynulliad a swyddogion. Dylai fod yn ofynnol i Aelodau a swyddogion ddefnyddio'n unig y gwestai hynny sy'n cynnig cyfraddau is, oni fydd yna amgylchiadau eithriadol. | ① | Gwellid ei wneud yn weinyddol, hwyrach, ond byddai angen ategu unrhyw gosbau gan Benderfyniad neu Fesur. | **Gellir ei gyflawni ond mae angen rhagor o waith** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| 26 | Hwyrach y bydd Comisiwn y Cynulliad yn dymuno ystyried capio cost rhentu eiddo ar gyfer Aelodau Cynulliad sy'n gymwys. | ② | Oherwydd argymhelliad 24, mae hyn yn ymddangos fel cyngor i'r Comisiwn fabwysiadu polisi na fydd yn rhentu eiddo sy'n uwch na rhent penodol. | **Gellir ei gyflawni ond mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 28 | Ni ddylai Aelodau Cynulliad sy'n dewis prynu ail gartref, neu rentu oddi wrth asiant nad yw wedi ei gymeradwyo, fod yn gymwys i hawlio lwfans llety. | ② | Gellid ei weithredu'n rhannol drwy gamau gweinyddol, ond gall fod angen diwygiad yn y Penderfyniad | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 30 | Dylai'r Aelodau Cynulliad hynny sy'n dewis rhentu neu brynu eiddo'n annibynnol gael yr hawl i hawlio ad-daliad am filiau cyfleustodau, trwydded deledu, yswiriant, treth gyngor a chysylltiad band eang. | ② | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| **Pennod 7: Swyddfeydd** | | | | | |
| 31 | Dylai'r Lwfans Costau Swyddfa ar gyfer Aelodau Cynulliad barhau ar y lefel bresennol ar gyfer costau swyddfa leol ac ar gyfer hysbysebu cymorthfeydd. | ① | Dim angen newidiadau | **Ar waith** | **Dim angen gweithredu** |
| 33 | Dylai grant o £5,000 fod ar gael tuag at eitemau unwaith-ac-am-byth sy'n angenrheidiol i ddodrefnu swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarthol yn ystod y deuddeg mis cyntaf o gyfnod Aelod Cynulliad newydd yn ei swydd. Dylai'r ffigur hwnnw ostwng i £2,000 os darperir y swyddfa drwy gyfrwng adeilad sy'n eiddo i'r cyhoedd. | ② | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 34 | Lle bydd Aelod Cynulliad yn penderfynu peidio â rhentu swyddfa leol, ond yn dewis cyflawni dyletswyddau etholaethol neu ranbarthol o swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd, yna dylid gostwng y ddarpariaeth ar gyfer costau swyddfa 75 y cant. | ② | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 35 | Gyda chymeradwyaeth Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau, dylai Aelodau Cynulliad allu hawlio darpariaeth Lwfans Costau Swyddfa ychwanegol am y swm dros £2,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol sy'n cael ei wario yn eu swyddfeydd lleol ar ddiogelwch, sicrwydd a mynediad i'r anabl; a dylid ad-dalu'r swm gormodol hwn yn ychwanegol at y Lwfans Costau Swyddfa sylfaenol. | ① | Yn debyg i'r trefniadau presennol, ond gall fod angen newid ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| 37 | Gall Aelodau Cynulliad isosod rhan o'u swyddfeydd i sefydliadau pleidiau gwleidyddol, undeb llafur neu unrhyw sefydliad neu fusnes arall, ond dim ond lle bydd trefniadau felly'n eglur. Dylai Comisiwn y Cynulliad osod rheolau clir ar gyfer y modd i ddelio ag incwm a gynhyrchir dan | ① | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | drefniadau felly. Rhaid i'r lle swyddfa a ddefnyddir gan yr Aelod beidio â chael ei ddefnyddio ar unrhyw gyfrif ar gyfer gweithgarwch gwleidyddol, gan gynnwys ymgyrchu. | | | | |
| 38 | Ni ddylid prydlesu swyddfeydd oddi wrth bartner Aelod Cynulliad, aelodau o'i deulu, cydweithwyr busnes, nac unrhyw sefydliad, gan gynnwys ymddiriedolaeth, y mae gan yr Aelod, partner, aelod teuluol neu gydweithiwr busnes fuddiant ariannol ynddo; gydag eithriadau i gynnwys daliadau bach iawn mewn cwmnïau sydd wedi eu rhestru a buddiolwyr cronfeydd pensiwn mawr. | ② | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 39 | Lle bydd Aelod Cynulliad yn rhannu swyddfa gydag Aelod Seneddol neu Aelod o Senedd Ewrop, dylid sefydlu cytundeb ffurfiol ynglŷn â'r ffordd y caiff y costau eu gwahanu, a dylai hynny gael ei gymeradwyo gan Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau a'i gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad. | ① | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 40 | Ni ddylai Aelodau Cynulliad gael yr hawl i hawlio o’r lwfans costau swyddfa am ddefnyddio’u cartref fel swyddfa etholaethol neu ranbarthol. | ① | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| 41 | Dylid ad-dalu costau Aelodau Cynulliad am hysbysebu cymorthfeydd hyd at derfyn uchaf o £1,500 mewn unrhyw flwyddyn, i’w talu o’r ddarpariaeth costau swyddfa. | ① | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** (i’w gynnwys mewn arweiniad i Aelodau Cynulliad yn y cyfnod byr) |
| 42 | Ar unwaith, dylai pob eitem unigol o gyfarpar swyddfa sy’n costio £50 neu ragor gael ei chofnodi ar restr eitemau. Dylai’r holl eitemau ar y rhestr honno gael eu dychwelyd i Gomisiwn y Cynulliad pan fydd yr Aelod Cynulliad yn ildio’i sedd, oni wneir cytundeb lle bydd yr Aelod yn cynnig prynu’r eitemau am bris wedi ei gytuno; neu’n eu trosglwyddo i berchnogaeth yr Aelod sy’n ei olynu, a ddylai lofnodi i ddangos ei fod yn eu cymryd. | ① | Gellid ei gyflawni drwy gamau gweinyddol ond byddai’n elwa o gael ei ategu gan Benderfyniad. | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010 (i ddod i rym o ddechrau’r flwyddyn ariannol 2010/11 am resymau treth?)** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 43 | Dylai eitemau unigol o ddodrefn swyddfa neu eitemau eraill sy'n costio dros £750 gael eu cyfeirio at Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau i'w cymeradwyo, cyn tynnu'r gost. | ① | Gellid ei gyflawni drwy gamau gweinyddol ond byddai'n elwa o gael ei ategu gan Benderfyniad. | **Hanfodol a gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010 (i ddod i rym o ddechrau'r flwyddyn ariannol 2010/11 am resymau treth?)** |
| 44 | Lle mae'n briodol, dylid darparu'n ganolog i ddarparu cyfarpar, dodrefn a chyflenwadau swyddfa i Aelodau Cynulliad. Dylai Comisiwn y Cynulliad hefyd ddarparu i Aelodau Cynulliad enwau cyflenwyr cyfarpar swyddfa wedi eu cymeradwyo sy'n barod i gynnig gostyngiadau mewn gwahanol rannau o Gymru, waeth ymhle y mae eu canolfan. | ① | Gellid ei gyflawni drwy gamau gweinyddol ond byddai'n elwa o gael ei ategu gan Benderfyniad. | **Mae angen rhagor o waith** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010 (i ddod i rym o ddechrau'r flwyddyn ariannol 2010/11 am resymau treth?)** |
| 45 | Dylai'r Corff Adolygu Annibynnol gael y grym i adolygu a chymeradwyo newidiadau yn y ddarpariaeth costau swyddfa. | ② | Byddai angen Mesur, a darperir cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer hynny gan Fater 13.3 | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| **Pennod 8: Pobl a Gyflogir gan Aelodau Cynulliad** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 46 | Dylai rheolau ar yr holl faterion yn ymwneud â chymorth ariannol i Aelodau Cynulliad gael eu cyfuno mewn un ddogfen. | ① | Y rheswm pam y mae Penderfyniadau ar wahân yw bod GOWA 06 yn pennu gweithdrefnau gwahanol ar gyfer Penderfyniadau Lwfans Grŵp. | **Mae angen rhagor o waith** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010** |
| 47 | Pan gaiff yr arweiniad ar fandiau cyflogau staff ei ddiwygio nesaf, dylid gosod rhifau bandiau mewn trefn resymegol. | ① | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Mae angen rhagor o waith** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010** |
| 48 | Dylai Aelodau Cynulliad barhau i gyflogi eu staff eu hunain. | ① | Mae'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol | **Ar waith** | **Dim angen gweithredu** |
| 49 | Dylai holl gostau cyflogau staff barhau i gael eu gweinyddu drwy'r gwasanaethau cyflogres a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol, a'u nodi yn erbyn enw pob Aelod Cynulliad fel sy'n briodol. | ① | Mae'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol | **Ar waith** | **Dim angen gweithredu** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 50 | Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu cronfa o brentisiaid i ychwanegu at unedau cymorth canolog pob grŵp plaid. | ② | Gellir ei wneud yn weinyddol | **Mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 51 | Er mwyn darparu adnoddau'n well ar gyfer gallu strategol y Cynulliad, dylai Comisiwn y Cynulliad ymwneud ag arweinwyr y pleidiau i gytuno ar lefel dderbyniol o gymorth. Dylai'r Comisiwn hefyd adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau plaid i ganiatáu uned gymorth ganolog o un rheolwr grŵp, un pennaeth polisi ac ymchwil, pedwar ymchwilydd, dau swyddog y wasg a dau aelod staff clerigol ar gyfer grwpiau plaid o rhwng tri a deg Aelod; ac ar gyfer grwpiau plaid o un ar ddeg Aelod neu ragor, dylid cael un swyddog y wasg yn ychwanegol. | ① | Gweinyddol yn rhannol ond yn bennaf drwy Benderfyniad | **Mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 52 | Dylai Comisiwn y Cynulliad ystyried cyflwyno swydd staff o weithiwr cymorth i'r pwyllgorau sydd ar gael i Aelodau Cynulliad o fewn eu Lwfans Cyflogau Staff. | ② | Gweinyddol yn rhannol ond byddai angen Penderfyniad hefyd. | **Mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 53 | Dylai pawb a gyflogir gan Aelodau Cynulliad gael eu cyflogi dan delerau contract cyflogaeth er mwyn sicrhau cysondeb. | ① | Gellir llunio contract safonol yn weinyddol, ond byddai gofyniad gorfodol i'w ddefnyddio yn gofyn am Benderfyniad | **Mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 54 | Dylai Comisiwn y Cynulliad gynhyrchu arweiniad ar gyfer Aelodau Cynulliad i gymryd i ystyriaeth y cyfraddau cyflog a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Dylai cyflogau cychwynnol adlewyrchu swyddogaethau, cyfrifoldebau a phrofiad staff, a dylid eu cytuno gyda gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cynulliad cyn cynnig cyflogaeth. | ① | Gallai canllawiau felly gael eu rhoi ar waith heb newidiadau yn y Penderfyniad | **Mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 55 | Ni ddylid caniatáu i Aelodau Cynulliad roi taliadau bonws i'r rhai a gyflogir ganddynt o'u lwfansau sy'n cael eu hariannu gan y Cynulliad. | ① | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad (TBC – papur i'r Comisiwn ym mis Medi)** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 56 | Dylai cyflogau staff barhau i godi'n briodol bob blwyddyn yn unol â'r rheolau cyfredol ar gyfer codiadau a dyfarniadau 'costau byw', ond gyda darpariaeth, os bydd newidiadau sylweddol yn digwydd, y gellir gwneud adolygiad gan y Corff Adolygu Annibynnol, neu ar gais Comisiwn y Cynulliad. | ① | Yn bennaf drwy Benderfyniad, ond bydd swyddogaeth IRB yn gofyn am Fesur, a darperir cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer hynny gan Fater 13.3. | **Ar waith yn rhannol, a gellir ei gyflawni'n rhannol** | **Ar waith, ond mae trefniadau ar gyfer newidiadau yn y dyfodol yn golygu gweithredu'n ddiweddarach o ran swyddogaeth IRB – i fod ar waith cyn y Nadolig 2010 (TBC)** |
| 57 | Pan gaiff bandiau cyflog staff cymorth eu hadolygu nesaf ym mis Ebrill 2010, dylai'r Comisiwn ystyried ychwanegu pwynt ychwanegol yn y golofn gyflog ar frig pob band, neu gynyddu'r pwynt cyflog uchaf ym mhob band.. | ① | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Mae angen rhagor o waith** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010 (TBC)** |
| 58 | Dylai Comisiwn y Cynulliad barhau i dalu cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer Yswiriant Gwladol allan o lwfans cyflogau staff aelodau Cynulliad, a'u nodi yn erbyn eu henwau. | ① | Mae'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol | **Ar waith** | **Dim angen gweithredu** |
| 59 | Dylai cyfraniadau pensiwn y cyflogwr barhau i fod yn amodol ar uchafswm o 10 y cant o'r gyflog flynyddol wirioneddol. | ① | Mae'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol | **Ar waith** | **Dim angen gweithredu** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 60 | Dylid parhau i ganiatau trefniadau cronfa ar gyfer cyflogi staff cymorth Aelodau Cynulliad. Dylid gosod y trefniadau hyn o fewn fframwaith cyfreithiol sy'n briodol ar gyfer pob cronfa. | ① | Mae'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, ond gellid ei atgyfnerthu drwy ei gynnwys mewn Penderfyniad | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| 61 | Dylid caniatáu talu o gronfa ganolog gostau sy'n gysylltiedig â staff dros dro sy'n cael eu cyflogi i ddarparu ar gyfer absenoldebau dilys. Dylid talu ar yr amod yn unig fod angen y ddarpariaeth ar gyfer swydd barhaol. Ni ddylid caniatáu darpariaeth ar gyfer staff achlysurol neu staff dros dro. | ① | Gellir ei gyflawni'n rhannol drwy gamau gweinyddol, ond gall fod angen Penderfyniad. | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| 62 | Dylai Aelod Cynulliad allu hawlio swm ychwanegol heb fod dros £2,000 i dalu am gostau teithio a thaliadau goramser i staff, gan gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol ychwanegol y cyflogwr sy'n ymwneud ag unrhyw daliadau felly. Mewn achosion lle bu lefelau uchel o wariant ar deithio wedi eu tynnu o reidrwydd gan staff cymorth wrth ymgymryd â dyletswyddau'r Cynulliad, gall Aelod Cynulliad | ② | Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad yn ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gyflwyno achos dros gynnydd yn y lwfans hwn drwy wneud cais i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau. | | | | |
| 63 | Pan fyddant yn dechrau gweithio, dylai pawb a gyflogir gan Aelodau Cynulliad gael llawlyfr cyflogai. Dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi'r llawlyfr hwn a'i seilio ar ffurf a gynigir yn Atodiad 12 yn yr adroddiad. Dylai'r llawlyfr gael ei adolygu'n rheolaidd a bod ar gael ar ffurf electronig ac fel copi caled. | ① | Gallai llawlyfr cyflogeion gael ei ddarparu'n weinyddol | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 64 | Dylid cynhyrchu Polisi Recriwtio ar gyfer dethol staff cymorth i Aelodau Cynulliad. Dylai hyn gynnwys y pwyntiau canlynol:<br>i) rhesymau pam y mae'n bwysig dilyn arfer da, trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol - ar hil, rhyw ac anabledd<br>ii) rhwymedigaethau penodol cyrff cyhoeddus mewn cysylltiad â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf – i fynd ati'n frwd i hyrwyddo cydraddoldeb | ① | Gellid trefnu'r polisi recriwtio'n weinyddol. Fodd bynnag, os bwriedir talu lwfans staff yn amodol ar gydymffurfio â'r polisi, byddai hynny'n gofyn am Benderfyniad | **Mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ym mhopeth a wnânt<br>iii) cynhyrchu manyleb y person cyn hysbysebu<br>iv) hysbysebu'n agored ar wefan ac yn y wasg leol<br>v) rhaid peidio â'i gwneud yn ofynnol perthyn i blaid wleidyddol benodol<br>vi) rheolau'n cyfyngu cyflogi aelodau o'r teulu<br>vii) defnyddio ffurflen gais gyffredin gyda gwybodaeth i fonitro Cyfle Cyfartal<br>viii) Aelodau Cynulliad a'r adran Adnoddau Dynol ddylai ddethol ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad<br>ix) rhesymau dros wrthod adeg llunio rhestr fer ac ar ôl cyfweliad i gael eu cofnodi (rhoi ymateb os gwneir cais)<br>x) bydd cyfweliad proffesiynol gyda'r Aelod Cynulliad gan ddilyn canllawiau wedi eu paratoi gan yr adran Adnoddau Dynol. Cynnwys trafod egwyddorion Nolan a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Staff. | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 66 | Dylai unrhyw recriwtio staff cymorth o'r newydd fod yn amodol ar weithdrefnau recriwtio eglur yn unol â'r polisi newydd ac ag egwyddorion Nolan. | ① | Gellid trefnu'r polisi recriwtio'n weinyddol. Fodd bynnag, os bwriedir talu lwfans staff yn amodol ar gydymffurfio â'r polisi, byddai hynny'n gofyn am Benderfyniad | **Mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 67 | Dylai'r Comisiwn lunio Contract Cyflogaeth wedi ei ddiweddaru ar gyfer staff cymorth presennol Aelodau Cynulliad, gan gymryd i ystyriaeth y diwygiadau a awgrymir ym mharagraff 8.93. | ① | Gellir llunio contract safonol yn weinyddol, ond byddai gofyniad gorfodol i'w ddefnyddio yn gofyn am Benderfyniad | **Mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |
| 68 | Dylai'r Comisiwn lunio contract cyflogaeth newydd ar gyfer yr holl staff cymorth a benodir ar gyfer Aelodau Cynulliad. | ① | Gellir llunio contract safonol yn weinyddol, ond byddai gofyniad gorfodol i'w ddefnyddio yn gofyn am Benderfyniad | **Mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 69 | Dylai taliadau colli swydd i staff cymorth Aelodau Cynulliad gael eu cyfrifo yn unol â'r cynllun statudol ar gyfer taliadau colli swydd, ynghyd â chodiad o 50 y cant. | ① | Angen diwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad (mae'n debyg fod angen iddo fod yn rhan o ddiwygiadau'r contract)** |
| 70 | Dylai Comisiwn y Cynulliad fod yn fodlon fod cais am dalu costau felly am golli swydd yn rhesymol o gofio'r amgylchiadau unigol. Rhaid i'r Comisiwn fod yn fodlon y gellir cyfiawnhau'r colli swydd dan sylw a bod gweithdrefnau cywir wedi eu dilyn, er mwyn sicrhau defnyddio arian cyhoeddus yn briodol. | ① | Angen diwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad (mae'n debyg fod angen iddo fod yn rhan o ddiwygiadau'r contract)** |
| 71 | Dylai fod gan Gomisiwn y Cynulliad yr awdurdod i dalu costau rhesymol colli swydd o gronfa ganolog, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pan gaiff cronfa ei diddymu oherwydd bod un Aelod Cynulliad neu ragor yn gadael eu swydd. | ① | Angen diwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr Etholiad (mae'n debyg fod angen iddo fod yn rhan o ddiwygiadau'r contract)** |
| **Pennod 9: Hyfforddiant a Datblygiad** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 72 | Dylai grwpiau plaid gael eu hannog i lunio proffiliau swydd ar gyfer eu Haelodau Cynulliad a defnyddio'r rheini'n adeiladol i nodi bylchau o ran sgiliau ac anghenion datblygiad. | ① | Mae'n ymddangos bod yr argymhellion hyn yn gofyn am weithredu gan ACau/grwpiau plaid yn hytrach na chan CCCC. Pe bae unrhyw fath o gosb yn cael ei gosod , byddai angen deddfwriaeth. | **Angen rhagor o waith** | **Gweithredu gan grwpiau plaid** |
| 73 | Unwaith y flwyddyn dylai pob grŵp plaid baratoi adroddiad byr yn crynhoi'r hyn y mae ei Aelodau wedi ei gyflawni o ran hyfforddiant, a hynny i gael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad. | ② | Mae'n ymddangos bod yr argymhellion hyn yn gofyn am weithredu gan ACau/grwpiau plaid yn hytrach na chan CCCC. Pe bae unrhyw fath o gosb yn cael ei gosod , byddai angen deddfwriaeth. | **Angen rhagor o waith** | **Gweithredu gan grwpiau plaid** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 74 | Dylai pob grŵp plaid benodi 'hyrwyddwr hyfforddiant' i gynnig cefnogaeth ac i annog dysgu a datblygiad parhaus ymhlith Aelodau a'r sawl sy'n cael eu cyflogi ganddynt. | ② | Mae'n ymddangos bod yr argymhellion hyn yn gofyn am weithredu gan ACau/grwpiau plaid yn hytrach na chan CCCC. Pe bae unrhyw fath o gosb yn cael ei gosod , byddai angen deddfwriaeth. | **Angen rhagor o waith** | **Gweithredu gan grwpiau plaid** |
| 76 | Dylai grwpiau plaid gytuno i neilltuo un prynhawn y mis ar gyfer hyfforddiant (er enghraifft, ar brynhawn dydd Llun neu ddydd Iau) a sicrhau bod pob Aelod Cynulliad yn mynychu sesiynau ar feysydd yr ystyrir eu bod yn hanfodol, yn ogystal â'r rheini sydd wedi eu nodi drwy ddadansoddiad o anghenion hyfforddiant neu gan yr 'hyrwyddwr hyfforddiant' ac o'r ymarfer hunanasesiad. | ② | Mae'n ymddangos bod yr argymhellion hyn yn gofyn am weithredu gan ACau/grwpiau plaid yn hytrach na chan CCCC. Pe bae unrhyw fath o gosb yn cael ei gosod , byddai angen deddfwriaeth. | **Angen rhagor o waith** | **Gweithredu gan grwpiau plaid** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 77 | Dylai'r Comisiwn gyhoeddi gwybodaeth a data ar ei wefan yn ymwneud â'r gweithgareddau hyfforddiant a datblygiad y mae Aelodau unigol neu bwyllgorau wedi ymgymryd â hwy. | ① | Gellir ei wneud yn weinyddol | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010**<br>Bydd angen gwaith cyn y gellir cyflwyno hyn |
| 78 | Dylai pobl a gyflogir gan Aelodau Cynulliad, yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant a ddarperir gan y grŵp plaid neu hyfforddiant arbenigol y nodir ei fod yn hanfodol, allu cael unrhyw hyfforddiant priodol sydd ar gael ar hyn o bryd i gyflogeion y Cynulliad Cenedlaethol. | ② | Gellir ei wneud yn weinyddol | **Mae angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr etholiad**<br>(Yn y cyfamser, bydd Staff Cymorth yn parhau i gael cynnig hyfforddiant ar gyrsiau priodol ar gyfer Staff y Cynulliad) |
| 79 | Dylai hyfforddiant staff cymorth gael ei gynnwys o fewn cyllideb hyfforddiant Aelodau Cynulliad, a dylid cadw honno'n ganolog. | ② | Gellir ei wneud yn weinyddol, ond er mwyn eglurder byddai'n well cael Penderfyniad. | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr etholiad** |
| 81 | Dylai'r gyllideb hyfforddiant gynnwys mwy yn y flwyddyn gyntaf, oherwydd dyna pryd y bydd angen hyfforddiant dwys ar Aelodau Cynulliad newydd a'r sawl a gyflogir ganddynt. Argymhellwn gyfanswm o £350,000 yn y flwyddyn gyntaf, a £200,000 bob | ② | Gweinyddol | **Gellir ei gyflawni** | **Gweithredu ar ôl yr etholiad** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | blwyddyn yn y tair blynedd nesaf. | | | | |
| 82 | Dylai system gael ei threfnu a'i rhedeg gan Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau lle bydd grwpiau plaid yn cynnig am symiau o'r gyllideb hyfforddiant hon, er mwyn darparu hyfforddiant penodol ar gyfer Aelodau Cynulliad a'u staff. | ① | Gweinyddol | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010** Bydd angen rhywfaint o waith er mwyn annog cynigion o gronfa hyfforddiant bresennol yr Aelodau |
| **Pennod 10: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | | | | | |
| 83 | Dylai fod yn orfodol i Aelodau Cynulliad a'r sawl a gyflogir ganddynt lofnodi'r Cod TGCh cyn gallu mynd i mewn i gyfarpar TGCh. | ① | Gweinyddol | **Gellir ei gyflawni** | **Cyn gynted â phosibl, ac yn sicr erbyn diwedd toriad yr haf** |
| 84 | Yn ogystal â'r cyfrifiaduron a'r cyfarpar TGCh arall ym Mae Caerdydd ac mewn swyddfeydd etholaeth, dylai pob Aelod Cynulliad barhau i gael un Blackberry (neu rywbeth tebyg), un ffôn symudol, un gliniadur, un llinell tir a gallu | ① | Gweinyddol | **Ar waith** | **Dim angen gweithredu** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | defnyddio band eang. | | | | |
| 85 | Dylai Aelodau Cynulliad fod yn gymwys i hawlio ad-daliad am gost galwadau busnes a wneir ar eu ffonau symudol. Dylent allu dewis naill ai i gyflwyno bil manwl ynteu gyfrannu ar gyfradd wastad o 50 y cant o gyfanswm y bil. Disgwylir i Aelodau ddewis un o'r dulliau hyn ar ddechrau pob Cynulliad. | ① | Angen diwygiad ym Mhenderfyniad 2009 | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010** |
| 86 | Dylid parhau i gofnodi ar gofrestr o asedau yr holl gyfarpar TGCh a roir i Aelodau Cynulliad, a dylid eu dychwelyd i Gomisiwn y Cynulliad pan fydd Aelod yn gadael. | ① | Yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol | **Ar waith** | **Dim angen gweithredu** |
| **Pennod 11: Teithio** | | | | | |
| 87 | Dylid cyfraddau milltiroedd barhau'n seiliedig ar y rheini a osodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a dylent fod yn gymwys i Aelodau Cynulliad yn ogystal â'u staff. | ① | Angen diwygiad ym Mhenderfyniad 2009 er mwyn i'r cyfraddau llawn fod yn gymwys i staff | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Aelodau (eisoes yn gymwys i Aelodau) | | |
| 88 | Dylai Comisiwn y Cynulliad drafod gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi y cwestiwn o ddatblygu system newydd o gyfraddau milltiroedd yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf, gyda'r nod o fynd ati i annog defnyddio cerbydau sy'n fwy caredig i'r amgylchedd. | ① | Dim angen camau ffurfiol i gael trafodaethau, ac ati. Byddai unrhyw ddiwygiad i'r system yn golygu diwygio'r Penderfyniad a fyddai mewn grym bryd hynny. | **Angen rhagor o waith** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010** |
| 89 | Dylai Aelodau Cynulliad barhau i fod yn gymwys i hawlio costau teithio rhwng eu cartref, y Cynulliad a swyddfeydd lleol. | ① | Y drefn bresennol i barhau, ond i gael ei hymgorffori mewn Penderfyniad er mwyn eglurder | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith ond caiff newid yn y Penderfyniad ei gynnwys wrth weithredu'n ddiweddarach** |
| 90 | Dylid parhau'r trefniadau presennol ar gyfer teithio gan bartneriaid Aelodau Cynulliad a'u plant, fel sydd wedi ei osod allan ym Mhenderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 | ② | Y drefn bresennol i barhau, ond i gael ei hymgorffori mewn Penderfyniad er | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith ond caiff newid yn y Penderfyniad ei gynnwys wrth weithredu'n ddiweddarach** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | mwyn eglurder | | |
| 91 | Dylai Penderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 gael ei ddiwygio i annog defnyddio cludiant cynaliadwy a Chynllun y Ddraig Werdd. | ② | I'w ddiwygio drwy Benderfyniad | **Angen rhagor o waith** | **Gweithredu ar ôl yr etholiad** |
| 93 | Dylai Aelodau Cynulliad chwilio am y tocyn teithio rhataf sydd ar gael a chymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiadau sydd ar gael; gan gynnwys y rheini sydd ar gael i Aelodau sydd â 'senior railcard' neu brisiau consesiwn eraill. | ① | Gweinyddol yn rhannol ond byddai diwygiad yn y Penderfyniad yn ddoeth | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| 94 | Dylai Comisiwn y Cynulliad geisio hyrwyddo rhannu ceir gan Aelodau Cynulliad , lle bydd yn briodol, o bosibl gan gynnwys cymhelliad ariannol. | ① | Gellir ei wneud yn weinyddol ond byddai angen ei ymgorffori mewn Penderfyniad er mwyn cryfhau'r grym i'w wneud yn orfodol. | **Angen rhagor o waith** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 95 | Dylai Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau geisio trafod gyda chwmnïau trenau a darparwyr gwasanaethau hedfan i gael pris gostyngol ar gyfer Aelodau Cynulliad sy'n defnyddio'u gwasanaethau ar fusnes y Cynulliad. | ① | Gweinyddol | **Angen rhagor o waith** | **Ar gael cyn y Nadolig 2009** |
| 96 | Dylid parhau i gytuno siwrneiau y tu allan i'r DU (ac eithrio teithio i Frwsel a Strasbwrg) gyda Thîm Cymorth Busnes yr Aelodau ymlaen llaw. | ② | Yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol | **Ar waith** | **Dim angen gweithredu** |
| 97 | Mewn unrhyw flwyddyn ariannol, dylai pob Aelod Cynulliad gael yr hawl i wneud hyd at bedair siwrnai ddwyffordd rhwng Cymru ac unrhyw aelod wladwriaeth arall, neu ranbarth, yn yr Undeb Ewropeaidd ar fusnes yn ymwneud â'r Cynulliad. | ① | Diwygiad yn y Penderfyniad | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| 98 | Dylai Comisiwn y Cynulliad adolygu'r polisi cyfredol ar gyfer trefniadau parcio ceir yn swyddfeydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd, o ran Aelodau Cynulliad a staff y Cynulliad - mewn cysylltiad â darpariaeth gyfartal, cynaliadwyedd a goblygiadau o ran adnoddau. | ① | Gweinyddol | **Gellir ei gyflawni** | **Cyn gynted â phosibl, ac yn sicr erbyn diwedd toriad yr haf** |

| Pennod 12: Gweinyddu, Archwilio a Safonau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 99 | Dylai Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol, fel y Prif Swyddog Cyfrifo, sefydlu systemau i sicrhau llywodraethu priodol. | ① | Gweinyddol | **Hanfodol a gellir ei gyflawni** | **Eisoes ar waith, ond caiff ei adolygu ar sail yr argymhellion hyn** |
| 100 | Dylid gweithredu egwyddorion llywodraethu corfforaethol cadarn, fel hyn:<br><br>i) rheolau wedi eu cyhoeddi sy'n cael eu mynegi'n glir, eu defnyddio'n gyson a'u cefnogi gan arweiniad diamwys<br>ii) o'r adeg pan gaiff yr adroddiad ei fabwysiadu, dylai Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau osod allan yn glir mewn un ddogfen sydd ar gael i'r cyhoedd yr holl ystod cyflogau, treuliau a chostau lwfans y gall unrhyw Aelod Cynulliad eu hawlio, gan gynnwys costau ar gyfer eu staff cymorth<br>iii) dylid ategu'r ddogfen honno gan arweiniad clir a diamwys gan y Comisiwn yn gosod allan yn fanwl y | ① | Gweinyddol | **Hanfodol a gellir ei gyflawni, ond bydd angen rhagor o waith** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | rheolau a'r gweithdrefnau penodol i'w dilyn gan Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth wrth nodi costau lwfans y gellir eu hawlio, paratoi hawliadau i'w cyflwyno, cadw papurau cefnogi<br>iv) dylid paratoi arweiniad gan y Comisiwn hefyd i staff Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau i'w cynorthwyo wrth archwilio a phrosesu hawliadau i'w cymeradwyo a'u talu<br>v) dylid darparu hyfforddiant priodol ac amserol i bawb sy'n ymwneud â gweithredu'r trefniadau newydd<br>vi) dylai Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau ddatblygu defnyddiau hyfforddiant priodol ar y trefniadau newydd a chynnig yr hyfforddiant hwnnw i'r holl Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth. Dylai mynychu'r cyrsiau hyfforddiant hyn fod yn orfodol<br>vii) dylid gwneud addasiadau priodol yn y trefniadau cyflwyno presennol ar gyfer yr holl Aelodau Cynulliad newydd a staff cymorth, i sicrhau rhoi amlygrwydd priodol i'r materion hyn o'r cychwyn cyntaf | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | viii) dylid darparu hyfforddiant gorfodol hefyd i holl staff perthnasol y Cynulliad, gan gynnwys staff yn Nhîm Cymorth Busnes yr Aelodau, ynglŷn â gweithredu'r trefniadau newydd<br>ix) dylid cael trefniadau archwilio mewnol ac allanol cynhwysfawr a chadarn | | | | |
| 102 | Dylai Comisiwn y Cynulliad ddefnyddio archwilio mewnol i ddarparu sicrwydd i Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, fel y Prif Swyddog Cyfrifo, fod y fframwaith o reolaeth fewnol dros y trefniadau newydd yn gadarn ac yn gweithio fel y bwriedir. | ① | Gweinyddol | **Hanfodol a gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2009** |
| 103 | I helpu eglurder, dylai'r Datganiad blynyddol ar Reolaeth Fewnol a gyhoeddir gan y Cynulliad bob blwyddyn gynnwys cyfeiriad penodol at effeithiolrwydd y fframwaith rheolaeth fewnol dros y trefniadau newydd. | ① | Gweinyddol | **Hanfodol a gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010**<br>Caiff hwn ei gyflwyno ar gyfer y Datganiad ar Reolaeth Fewnol 2009/10 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 104 | Dylid ailenwi Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol y Comisiwn yn Bwyllgor Archwilio. | ① | Gellir ei wneud yn weinyddol. | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010** |
| 105 | Dylid ailenwi'r Pwyllgor Archwilio presennol yn Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Cymru) | ① | Gellir ei wneud drwy benderfyniad dan adran 30 o GOWA 06. | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010 – Angen i''r Cynulliad benderfynu** |
| 106 | Dylid gosod dyletswydd ar Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, fel y Prif Swyddog Cyfrifo, i gyfeirio materion perthnasol at y Comisiynydd Safonau i ymchwilio iddynt | ① | Yn awr yn y Mesur Comisiynydd Safonau | **Gellir ei gyflawni** | **Cynigir ei gynnwys yn nrafft y Mesur Safonau** |
| 107 | Er mwyn gwella effeithiolrwydd y broses ymchwilio, byddai'r Panel yn cefnogi ymestyn pwerau'r Comisiynydd Safonau i ymchwilio i achosion posibl eraill, sy'n ymddangos i'r Comisiynydd yn berthnasol wrth ymchwilio i un mater penodol neu sy'n gysylltiedig ag ef. | ① | Yn awr yn y Mesur Comisiynydd Safonau (wedi ei newid fymryn). | **Gellir ei gyflawni** | **Cynigir ei gynnwys yn nrafft y Mesur Safonau** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 108 | Dylai'r Corff Adolygu Annibynnol gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol, fel y Prif Swyddog Cyfrifo, allu galw cyfarfod o'r Corff Adolygu Annibynnol ar unrhyw adeg. | ① | Angen Mesur. Darperir cymhwysedd deddfwriaethol gan Fater 13.3. | **Gellir ei gyflawni** | **Ar waith cyn y Nadolig 2010**<br>Pan fydd y Corff Adolygu wedi ei greu. |